

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Mai 2022 fel cyfarfod hybrid, yn cychwyn am 6.00pm.

## **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield JP MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker, Mrs M. A. Walker a Miss C. L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref

### **1. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cychwynnodd Caplan y Maer, Y Tad Anthony Nnamah, y cyfarfod drwy arwain bawb a ddymunodd hynny mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorydd Miss S. L. Roberts.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y cynghorwyr newydd eu hethol a'r gwesteion dinesig.

### **2. ETHOL Y MAER A SEFYDLU**

Diolchodd y Cynghorydd King i'w Chymar, ei chyd-gynghorwyr, y Tad Nnamah a'i theulu a'i chyfeillion am eu cymorth mawr ei angen ac a werthfawrogwyd yn fawr drwy gydol ei blwyddyn yn y swydd.

Dyweddodd y Cynghorydd nad y cyfnod clo oedd popeth yn ystod y flwyddyn, a'i bod wedi cychwyn gan gydnabod y sawl a greodd yr addurniadau blwch post a ddechreuodd ymddangos ledled y Rhyl yn ystod y cyfnod clo cyntaf, a roddodd wên ar adeg pan roedd mawr angen hynny.

Uchafbwynt arall oedd agoriad swyddogol busnes newydd sbon yma yn y Rhyl, Harrisons Bistro, ac roedd yn falch o weld ei fod yn mynd o nerth i nerth.

Roedd y Cynghorydd King hefyd wedi mwynhau cefnogi'r Osborne Trust. Elusen a sefydlwyd i helpu plant rhieni gyda diagnosis o ganser.

Diwrnod o hwyl yn y Gerddi Botanegol, codi'r faner werdd yn Marine Lake, ei Gwasanaeth Dinesig yn Eglwys y Santes Fair, Christmas Pops, digwyddiad yr RNLI a aildrefnwyd, Trochfa Gwyl San Steffan, agor meddygfa filfeddygol ddim er elw yn y Rhyl ac wrth gwrs, digwyddiadau'r Cyngor Tref ar y stryd fawr.

Cyhoeddodd y Cynghorydd King ei bod wedi codi £270.40 ar gyfer Cymdeithas Alzheimer Cymru ac wedi cefnogi'r RNLI drwy godi £1,461.

Dywedodd y Cynghorydd King ei bod wedi mwynhau ei chyfnod fel Maer yn fawr iawn.

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer swydd y maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast bod y Cynghorydd Mrs D. L. King yn cael ei henwebu i wasanaethu am flwyddyn arall oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig Covid yn y 12 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd King.

Darllenodd y Cynghorydd King y datganiad swydd yn uchel a'i lofnodi.

Diolchodd y Maer i'w chynigydd a'i heilydd am eu henwebiadau a'u geiriau caredig a chadarnhaodd mai ei Chymar fyddai ei chyd-gynghorydd tref, y Cynghorydd Pete Prendergast ac roedd y Tad Anthony Nnamah yn garedig wedi cytuno parhau fel ei Chaplan. Dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at y 12 mis nesaf yn gweithio ar ran a chefnogi'r gymuned, ac mai ei helusennau fyddai Cymdeithas Alzheimer Cymru, RNLI y Rhyl a Chanolfan y Merched Gogledd Cymru yma yn y Rhyl.

Cyflwynwyd blodau i'r Maer a chyflwynodd hithau fathodyn y swydd a rhodd i'w Chymar.

### **3. ETHOL DIRPORWY FAER**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine yn cael ei henwebu am flwyddyn arall.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd McAlpine.

Cyflwynodd y Maer gadwyn y swydd i'r Cynghorydd McAlpine a'i gwahodd i lofnodi'r Datganiad Swydd.

Wedi gwneud hyn, diolchodd y Dirprwy Faer i aelodau'r Cyngor Tref am eu henwebiad a dywedodd mai ei chymar unwaith eto fyddai Ms Charlotte Taylor-Smith.

Cyflwynodd y Maer flodau i'r Cynghorydd McAlpine a bathodyn y swydd a blodau i Ms Taylor-Smith.

#### 4. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Ebrill 2022 - Rhifau Cofnod 132-141

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Ebrill 2022 - Rhifau Cofnod 60-62

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

#### 5. **PENODI PWYLLGORAU/IS-BWYLLGORAU/LLYWODRAETHWYR YSGOL AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2022/23**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau a ddangoswyd yn yr atodlen (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen), fel a ganlyn:

- mai aelodaeth y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol fydd holl aelodau'r Cyngor.
- mai aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio i ddechrau fydd holl aelodau;r Cyngor ond caiff ei adolygu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 15fed Mehefin 2022.
- bod aelodaeth pwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill yn cael ei ohirio tan gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 1af Mehefin 2022.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac fe **BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r penodiadau.

#### 6. **ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley y dylid penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford

**PENDEFYNWYD** ethol y Cynghorydd Rutherford.

#### 7. **ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard y dylid penodi'r Cynghorydd B. Mellor.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Mellor.

**8. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Butterfield ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James y dylid penodi'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd McAlpine.

**9. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Mear enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones y dylid penodi'r Cynghorydd D. Simmons.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Simmons.

**10. ATODLEN O GYFARFODYDD**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r atodlen o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/2023 fel y dangoswyd yn yr atodlen (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac fe **BENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen.

**11. LLOFNODWYR**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r canlynol i lofnodi cyfrifon cyfredol a buddsoddi y cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2022/2023.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod y llofnodwyr yn cael eu cdaarnhau fel a ganlyn:

Y Maer a'r Dirprwy Faer fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Llawn  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion canlynol:

Clerc y Dref  
Dirprwy Glerc y Dref

Y Swyddog Cyllid

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r llofnodwyr.

**12. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: .....

Dyddiad: ...20.05.2022.....